

06.07.2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Cyf: Crysau AG TGAU

Yn gyntaf, hoffwn groesawu eich mab/merch i'r cwrs TGAU Addysg Gorfforol rydym yn ei gyflwyno yn Ysgol Aberconwy. Gyda chydweithrediad eich mab/merch a'ch cefnogaeth barhaus, rydym yn gobeithio sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'ch mab/merch.

Mae 42% o'r cwrs yn ymwneud â chwaraeon ymarferol a 58% o'r cwrs yn theori (50% arholiad ac 8% gwaith cwrs). Mae'r cyrhaeddiad ymarferol yn gofyn am gyfranogiad eich plentyn mewn 3 champ, gan gynnwys 1 gamp tîm ac 1 gamp unigol (gweler y rhestr atodedig). Pe gallech annog eich plentyn i fynychu clwb cystadleuol dros yr haf, os nad ydynt yn gwneud hynny'n barod, byddai o gymorth mawr i'w siawns o ennill y radd orau bosibl.

Rydym yn anelu ac yn ymdrechu i ddarparu cynifer o gampau â phosibl yn yr ysgol, ond bydd cael yr hyfforddiant a'r datblygu sgiliau ychwanegol hwnnw yn cael effaith aruthrol ar y marciau a roddir. O ran unrhyw chwaraeon na allwn eu hasesu ar y safle, e.e. Marchogaeth neu Focsio, bydd angen tystiolaeth fideo i arddangos sgiliau yn ystod senario cystadleuol.


Bob blwyddyn, rydym yn argymhell prynu top TGAU Addysg Gorfforol (top hyfforddi Adidas) gyda chyfenw eich plentyn a haprif wedi'i argraffu ar y cefn i roi'r ymdeimlad ychwanegol hwnnw o hunaniaeth i'r myfyrwyr yn eu gwers. Mae'r rhain hefyd yn hynod fuddiol yn ystod cymedroli ymarferol i helpu'r arholwr i adnabod myfyrwyr. Mae'r topiau rydyn ni'n eu cynnig yn costio £21.50. Mae'r pris hwn yn cynnwys brodweithio logo'r ysgol ar y blaen, argraffu enw ar y cefn a dosbarthiad.

Gofynnwn i chi lenwi a dychwelyd y ffurflen archebu isod neu ddefnyddio'r ddolen/cod QR canlynol i gyflwyno'r ffurflen yn electronig: <https://forms.office.com/e/bNL4sVGkyl>

Cofiwch nodi maint y top yr hoffech ei brynu a chynnwys cyfenw eich plentyn mewn prif lythrennau.

Rhaid gwneud pob taliad trwy ap School Gateway. DYDDIAD TERFYNOL AR GYFER ARCHEBU: 15/09/23

Yn gywir iawn,



Mr Callum Bennett

Pennaeth Addysg Gorfforol / Head of Physical Education



.....
CYFENW (PRIF LYTHRENNAU):

Dosbarth Cofrestru:

MAINT Y TOP: (Gweler y cefn ar gyfer meintiau)

Llofnod (rhiant/gwarcheidwad):

Dyddiad:

Rhestr gweithgareddau TGAU Addysg Gorfforol

Asesir ymgeiswyr mewn tri gweithgaredd o'r rhestr ganlynol, bydd un o'r rheini yn brif weithgaredd sydd â phwysoli uwch ynghyd â dau weithgaredd llai gyda'r naill a'r llall o'r rhain â phwysoli is. Byddai angen i'r prif weithgaredd gael rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig ag ef er mwyn gallu cael y marc ychwanegol sydd ar gael. Rhaid i bob ymgeisydd wneud o leiaf un gweithgaredd fel gweithgaredd tîm. Nodir cyfuniadau sydd wedi'u gwahardd yn y troednodiadau.

Gweithgareddau ar gyfer tîm	Gweithgareddau y gellir eu gwneud fel gweithgaredd tîm neu weithgaredd unigolyn ¹	Gweithgareddau ar gyfer unigolyn
Pêl-droed ²	Badminton	Bocsio amatur
Pêl-fas	Dawns ⁷	Athletau (gan gynnwys Trawsgwlad) ^{10, 11}
Pêl-fasged	Cerdded mynyddoedd ¹³	Canŵio ⁹
Camogie/Chwarae Hyrli	Cyfeiriannu ¹⁸	Beicio ^{11, 12, 13}
Criced	Dringo creigiau ⁸	
Pêl-droed Gwyddelig		
Hoci ³	Hwyllo ²⁰	Deifio ¹⁴
Hoci llâ		
Lacrosse	Sgwlio ⁹	Marchogaeth ¹⁵
Pêl-rwyd	Tennis bwrdd	Golff
Rhwyfo ⁹	Tennis	Gymnasteg ⁴
Rownderi	Achub Bywyd ¹⁹	Jwdo
		Karate ¹⁷
Gymnasteg rythmig ⁴	Gymnasteg rythmig ⁴	Caiacio ⁹
Rygbîr gynghrair ⁵		Beicio mynydd ¹³
		Goroesiad Personol ¹⁹
Rygbî saith bob ochr ⁵		Sglo ¹⁶
Rygbîr undeb ⁵		Eirafordio ¹⁶
Nofio cydamserol ⁶		Sboncen
		Syrrffio ²⁰
Pêl-foeli		Nofio ^{8, 11, 19}
Polo dŵr		Taekwondo ¹⁷
Gweithgareddau arbenigol ar gyfer tîm	Gweithgareddau arbenigol fel tîm neu unigolyn	Trampolinio
Criced i'r deillion	Polybat	Triathlon ¹¹
Pêl-gôl		Codi pwysau
Criced bwrdd		Hwylfyddio ²⁰
Pêl-droed cadair bŵer		Gweithgareddau arbenigol ar gyfer unigolyn
Pêl-fasged cadair olwyn		Boccia
Rygbî cadair olwyn		

Nodiadau

- 1 Lle defnyddir unrhyw un o'r rhain fel gweithgaredd tîm yr ymgeisydd, rhaid ei asesu ym modd tîm yn unig (e.e. parau tennis) ac ni ellir defnyddio fersiwn unigolyn y gweithgaredd wedyn fel gweithgaredd gwahanol i'r ymgeisydd hwnnw (e.e. ni allai senglau tennis gael eu hasesu wedyn)
- 2 Ni all pêl-droed fod yn bump-bob-ochr na futsal
- 3 Ni ellir asesu hoci a hoci iâ gyda'i gilydd (ni ddylai fod yn hoci rollo)
- 4 Ni ellir asesu gymnasteg a gymnasteg rythmig gyda'i gilydd
- 5 Ni ellir asesu rygbi'r gynghrair, rygbi saith bob ochr a rygbi'r undeb gyda'i gilydd
- 6 Ni ellir asesu nofio, nofio cydamserol a pholo dŵr gyda'i gilydd
- 7 Gall dawns gyfrannu fel un gweithgaredd yn unig, h.y. nid yw ffurfiau amryfal yn rhoi gweithgareddau ychwanegol
- 8 Gall dringo creigiau fod dan do neu yn yr awyr agored
- 9 Ni ellir asesu canŵio, caiacio, rhwyfo a sgwlio gyda'i gilydd
- 10 Gall athletau (gan gynnwys traws gwlad) gyfrannu fel un gweithgaredd yn unig
- 11 Ni ellir asesu disgyblaethau sy'n rhan o gamp triathlon h.y. rhedeg pellter canolig a hir (gan gynnwys traws gwlad), beicio a nofio, yn ogystal â thriathlon
- 12 Gall beicio gyfrannu fel un gweithgaredd yn unig, h.y. nid yw ffurfiau amryfal yn rhoi gweithgareddau ychwanegol
- 13 Ni ellir asesu beicio a beicio mynydd gyda'i gilydd
- 14 Deifio yw deifio oddi ar lwyfan yn unig
- 15 Gall marchogaeth gyfrannu fel un gweithgaredd yn unig, h.y. nid yw ffurfiau amryfal yn rhoi gweithgareddau ychwanegol
- 16 Gall sgïo ac eirafordio fod ar lethrau artiffisial neu ar eira ond ni ellir eu hasesu gyda'i gilydd
17. Ni ellir asesu Karate a Taekwando gyda'i gilydd
18. Ni ellir asesu cerdded mynyddoedd a chyfeiriannu gyda'i gilydd
19. Ni ellir asesu goroesiad personol, achub bywyd a nofio gyda'i gilydd
20. Ni ellir asesu hwylio, syrffio a hwylyfyrddio gyda'i gilydd

siart maint:

Topiau Adidas	
Label Cynnyrch	Maint
XXS	0-2
XS	4-6
S	8-10
M	12-14
L	16-18
XL	20-22
2XL	24-26

Maint	Brest (cm)
XS (40-42)	82-87 cm
S (44-46)	88-94 cm
M (48-50)	95-102 cm
L (52-54)	103-111 cm
XL (56-58)	112-121 cm